Araith

# Bwlio seibr

Annwyl Gyfeillion,

Dydy pethau'n newid dim! Cyn sythu ffordd droellog, mae'n rhaid cael damwain angeuol, cyn rhoi ffens o gwmpas llyn mae'n rhaid i blentyn foddi, a chyn i'r gyfraith gydnabod bod bwlio seibr yn drosedd mae'n rhaid i rywun gyflawni hunanladdiad. Do, gyfeillion, yn dilyn achos diweddar o hunanladdiad mae'r elusen *BeatBullying* wedi dechrau ymgyrch i newid y gyfraith a dweud y dylid cyflwyno Ddeddf Bwlio Seibr i gosbi pobl sydd yn cam-drin eraill ar-lein. A hen bryd, ddyweda i.

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb drwy ryddhau datganiad gan yr Adran Addysg yn esbonio bod y Llywodraeth yn ymroddedig i fynd i'r afael â'r mater, ond yn dymuno gweithio o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol. 'Os ydy plentyn neu berson ifanc yn cael ei fwlio yn yr ysgol neu du allan dylent ddweud wrth athro neu oedolyn, ac rydym yn disgwyl i ysgolion weithredu'n gyflym.'

Ond pam rhoi'r cyfrifoldeb ar ysgwyddau rhieni ac athrawon o hyd ac o hyd? Onid oes ganddyn nhw ddigon o bethau ar eu plât fel ag y mae? Oni ddylai'r heddlu a'r gyfraith ysgwyddo'r baich? Oni fyddai hynny'n codi mwy o ofn ar y bwli?

Does dim dwywaith bod achosion o fwlio seibr wedi cynyddu wrth i rwydweithio cymdeithasol ddod yn fwy poblogaidd ac i niferoedd cynyddol o bobl ifanc ddefnyddio gwefannau fel *Facebook* neu *MySpace* i ryngweithio gyda'i gilydd. Efallai fod peth bai ar rieni, rwy'n cyfaddef. Wedi'r cyfan, mae rhai rhieni anghyfrifol yn caniatáu i'w plant sydd mor ifanc â 6 neu 7 oed gael mynediad i safleoedd sgwrsio. Gofyn am drwbwl ydy hynny a dylid cosbi'r rhieni. Mae ysgolion, ar y llaw arall, yn nacáu mynediad i'r fath safleoedd, a pham felly y dylen nhw ddelio â'r broblem?

Yn ôl NSPCC, 'defnyddio ffonau symudol a'r rhyngrwyd i boeni, bygwth a chodi cywilydd ar unigolyn' ydy bwlio seibr. A dyna ni yn ôl gyda'r tecstio sarhaus. Ond ydy plentyn 8 oed yn mynd i gyfaddef wrth ei fam ei fod wedi cael tecst i ddweud, 'mae dy fam yn cael affêr gyda dad'? Nac ydy, siwr iawn. Yn gyntaf, fyddai o ddim yn gwybod pwy ydy'r 'tad', ac yn ail byddai ganddo gywilydd dweud wrth ei fam. Pe bai'r gyfraith yn fwy llym fyddai hyn ddim yn digwydd yn y lle cyntaf.

Mae plentyn yn gallu dianc rhag bwlio yn yr ysgol neu ar y bws ac yn gwybod pwy i'w osgoi ond, mae bwlis seibr yn gallu cyrraedd eu dioddefwyr bron ymhob man ac ar unrhyw amser trwy ddefnyddio technoleg ddigidol. Maen nhw hefyd yn cuddio'u hunaniaeth. Mae hyn yn gallu gwneud plentyn yn nerfus iawn, fel ofni troi'r cyfrifiadur neu'r ffôn symudol ymlaen. O fynd â hyn gam ymhellach, gallai olygu na fyddai rhywun yn medru cael gafael ar blentyn ar ei ffôn symudol pan fo argyfwng.

A beth am y negeseuon sy'n bygwth trais i godi ofn, neu ffotograffau a delweddau sy'n cael eu hanfon dros ffôn symudol? Gallai'r rhain fod yn lluniau sydd wedi cael eu tynnu heb i'r person wybod hynny. Gallent hefyd fod yn lluniau sy'n dangos y person mewn sefyllfaoedd y byddai'n well ganddo eu cadw'n breifat. Mae hyn yn troi'n flacmel.

Ond gan fod camera fideo yn y rhan fwyaf o ffonau symudol, tybed ai cael eich ffilmio heb i chi sylweddoli ydy'r gwaethaf? Mae'r fideos yma wedyn yn cael eu postio ar wefannau fel *YouTube* a'ch hanes yn cael ei hysbysebu ar draws y byd. Mewn gwirionedd, y pryder mwyaf ydy nad oes dim hyd a lled na ffin amser i fwlio seibr.